OES 'NA DDIAFOL?

Nodyn i'r siaradwr:
Gan resymu a defnyddio'r Beibl, helpwch y gynulleidfa i ddeall fod y Diafol yn rhywun real. Dangoswch sut mae ein hamddiffyn ein hunain rhag ei gynllwynion, ac mor bwysig ydi gwneud hynny

SYNIADAU SY' GAN BOBL AM Y DIAFOL (5 mun.)

I lawer heddiw 'dyw'r Diafol "ddim byd mwy nag anghenfil yn nychymyg plentyn" (*g*90 1/8 12-13)

Barn boblogaidd ydi honno lle mae'r Diafol yn cael ei ddarlunio â chyrn ac â chynffon ac yn cario fforch

Mae rhai diwinyddion yn ystyried mai cynnyrch chwedl ydi'r Diafol, rhyw bersonoli drygioni mewn dull symbolaidd (*w*92 12/1 32)

Mae anffyddwyr yn rhesymu os nad oes 'na Dduw, 'does 'na ddim Diafol yn bod chwaith (Salm 14:1; 10:4)

Yr hyn mae Cristnogion yn ei gredu ydi mai ysbryd-fod ydi'r Diafol, gyda'r byd cyfan dan ei awdurdod (1Ioan 5:19)

SUT 'RYDYM YN GWYBOD FOD Y DIAFOL YN BOD (10 mun.)

Ai personoli drygioni mae'r Beibl? Nage. Mae'r Beibl yn darlunio'r Diafol fel person eithafol o ddrygionus (*rs* 361-6)

Y Beibl ydi prif ffynhonnell y dystiolaeth am fodolaeth y Diafol

Mae'n ei alw'n "Satan" 52 o weithiau, ac yn cyfeirio ato fel "diafol" neu "Diafol" 33 o weithiau (*BCL*)

Hanes ymryson rhwng Jehofah a'r Diafol ydi cynnwys penodau 1 a 2 llyfr Job

Fe soniodd Iesu am y Diafol lawer o weithiau (Math 25:41; Luc 22:31)

Mae temtiad Iesu yn profi fod y Diafol yn bod mewn gwirionedd (Math 4:1-11; *w*88 9/1 13-14)

'Roedd apostolion Iesu yn cyfeirio at y Diafol fel person (Eff 6:11; 1Pedr 5:8; Dat 2:10)

Mae'r Ysgrythurau'n esbonio cychwyn y Diafol a'i gynllwynion (*rs* 363)

Cafodd y Diafol ei greu'n berffaith, ond wedyn fe wrthryfelodd yn ei uchelgais am rym i deyrnasu dros eraill (*dg* 13-14)

Geiriau'r dramodydd Eugène Ionesco oedd: "Byddai hanes yn annealladwy petaem ni'n anwybyddu'r elfen ddemonig"

SUT MAE'R DIAFOL YN GWEITHIO (13 mun.)

'Rydym yn gwybod am gynlluniau cyfrwys y Diafol (2Cor 2:11)

Apelio at drachwant y cnawd, trachwant y llygaid, a balchder mewn meddiannau mae Satan (Darllen 1 Ioan 2:16)

Mae trachwant y cnawd yn medru arwain at anfoesoldeb

Cafodd yr Israeliaid eu denu i odinebu gyda merched Moab (Num 25:1-3; 1Cor 10:8, 11; *it*-2 419)

Mi all trachwant y llygaid a balchder mewn meddiannau ein gwneud ni'n gaeth i weithgareddau materol (*w*86 5/1 11-12)

Eraill eto o gynllwynion cyfrwys y Diafol ydi gamblo, meddwdod, tybaco, a dod yn gaeth i gyffuriau (*rq* 20-1)

Mae'r teledu, fideos, ffilmiau, cerddoriaeth, a'r Rhyngrwyd yn medru gwasanaethu amcanion Satan

Un arall o faglau'r Diafol ydi gau grefydd (2Cor 4:4; 11:14)

Mae dod o dan ddylanwad hudol yr ocwlt, meddwl yn annibynnol, ac ofni dyn, oll yn rhan o 'gynllwynion cyfrwys' y Diafol (Eff 6:11)

SUT I YMWRTHOD Â'R DIAFOL A CHADW'N FFYDDLON I DDUW (12 mun.)

Mae cyngor Iago yn ein help mewn dwy ffordd i lwyddo yn ein hymdrech i ymwrthod â'r Diafol (Darllen Iago 4:7, 8)

Er mwyn 'gwrthsefyll y diafol' mae'n rhaid "casáu drygioni" (Salm 97:10)

Mi fedrwn gasáu yr hyn sy'n ymddangos yn bleserus drwy feddwl am y canlyniadau

Mi all oedi a bod yn ansicr beth i'w wneud olygu colli'n bywydau

Er mwyn gwrthwynebu'r Diafol, mae'n rhaid bod yn effro, yn wyliadwrus

"Neséwch at Dduw" mewn gweddi, ufudd-dod, a ffydd (*w*97 11/15 20)

Penderfynwch sefyll yn erbyn y Diafol a chadw'n "gadarn mewn ffydd" (Darllen 1 Pedr 5:8, 9)

Mae'n rhaid inni felly'n harchwilio'n hunain i weld a oes gennym wendid y medrai'r Diafol fanteisio arno (*w*88 9/1 15-18)

Byddwch yn ofalus ynglŷn â'r hyn 'rydych yn ei ganiatáu i ddod i mewn i'ch cartre' drwy'r teledu a fideos (Eff 4:27)

Gwisgwch amdanoch "holl arfogaeth Duw" (Eff 6:11)

Mae hynny'n cynnwys ffydd, cyfiawnder, heddwch, a'r gallu i ddefnyddio Gair Duw yn ymarferol

Trefnwch amser i ddarllen y Beibl bob dydd a myfyrio arno (Salm 1:1, 2)

Rhowch amser heibio bob dydd i weddïo (1Pedr 3:12; 1Ioan 5:14)

Darllenwch lenyddiaeth ddiweddaraf dosbarth y gwas ffyddlon

Byddwch yn bresennol yn y cyfarfodydd a chael rhan ynddyn' nhw (Heb 10:23-25)

No. 131-W 8/00

Mynnwch gael rhan ystyrlon yn y weinidogaeth (Math 24:14)

Helpwch rai eraill i ddod i wybod am addewidion Duw ynglŷn â byd newydd fydd yn rhydd oddi wrth ddylanwad y demoniaid

Mynnwch ddysgu pobl sut i'w hamddiffyn eu hunain a sut i osgoi gwahanol faglau'r Diafol (2Cor 2:11)

BENDITHION SY'N DILYN GWRTHSEFYLL Y DIAFOL (5 mun.)

Mae'r frawdoliaeth Gristnogol yn cael ei chryfhau wrth inni wrthsefyll y Diafol (1Pedr 5:9)

Fe ddylem ni fod yn fwy penderfynol fyth i wasanaethu'n driw o wybod fod y Diafol eisiau dinistrio undod pobl Dduw

Fe ddaw heddwch meddwl a hapusrwydd wrth inni fyw bywyd duwiol (Phil 4:6, 7)

'Rydym ni hefyd yn ennill cymeradwyaeth Jehofah (Diar 27:11)

Mi fedrwn ni fod ymhlith y rhai sy'n goroesi'r "gorthrymder mawr" (Dat 7:14)

Mi allwn ni hefyd edrych ymlaen at fywyd tragwyddol mewn byd newydd cyfiawn a gweld bwriad godidog Duw yn cael ei wireddu (Dat 21:3, 4)

(Glynwch yn glós wrth y deunydd a amlinellir, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnyn' nhw)